## Y Bwrdd Rheoli
## Management Board

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**MB (07-10) Papur 5 (Rhan 1)**
**Adroddiad Rheolaeth Ariannol**

**Dyddiad:** 16 Medi 2010
**Amser:** 09:30-12:00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif ffôn yr awdur: Nicola Callow, est. 8054**

# Adroddiad Rheolaeth Ariannol:
# O ddechrau'r flwyddyn ariannol tan 31 Gorffennaf 2010

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan y Bwrdd Rheoli a barnwyd ei fod yn addas i'w gyhoeddi ar y fewnrwyd.***

**TROSOLWG AR BERFFORMIAD ARIANNOL YN YSTOD Y CYFNOD DAN SYLW**

1. Y gwariant net tan ddiwedd mis Gorffennaf oedd £13.358 miliwn. Mae amrywiant o 6% o'i gymharu â'r £14.188 miliwn a ragwelwyd ar gyfer y cyfnod dan sylw.

2. Mae rhagolygon mis Gorffennaf ar gyfer diwedd y flwyddyn yn amcangyfrif mai'r alldro ar ddiwedd y flwyddyn fydd tanwariant o £0.298 miliwn, sef tanwariant o 0.6% o'i gymharu â'r gyllideb o £46.227 miliwn (gweler paragraff 7 i gael esboniad o'r newidiadau yn y gyllideb). Mae'r tanwariant a ragwelir yn seiliedig ar ofyniad cyllidebol o £0.131 miliwn ar gyfer gwariant sy'n dibynnu ar y galw yn ogystal â cheisiadau posibl am arian gwerth £0.183miliwn.

3. Ymateb cyfyngedig gafodd y Tîm Cyllid i'r gwaith o baratoi rhagolygon a hynny oherwydd toriad yr haf ac amseriad gweithgareddau eraill. Mae hyn i'w weld yn y ffaith mai 6% yw'r tanwariant presennol tan ddiwedd mis Gorffennaf a dim ond un rhan o ddeg o hyn a gaiff ei adlewyrchu yn y rhagolwg diwedd blwyddyn. Gan fod angen talu costau'r Cynllun Ymadael yn Gynnar er mwyn arbed cymaint â phosibl yn y gyllideb gyflogau gylchol yn y dyfodol, rydym yn gobeithio sicrhau arbedion ychwanegol o £0.200 miliwn i ddarparu

**cyllideb o £0.500 miliwn. Dyma'r ffactorau lliniaru sy'n caniatáu i ni wneud hyn:**

a. **mae £0.334 miliwn ar gael o hyd yn y gronfa wrth gefn,**
b. **ni ddisgwylir y bydd angen y £0.131 miliwn cyfan;**
c. **yn ystod y broses o adolygu prosiectau yn yr hydref, mae'n debygol y ceir hyd i feysydd lle caiff arian ei ryddhau oherwydd llithriad yn 2010-11;**
d. **ar sail profiad y blynyddoedd diwethaf, mae'r sefyllfa a ragwelwyd erbyn diwedd y flwyddyn yn debygol iawn o arwain at danwariant ychwanegol dros y misoedd nesaf.**

4. **Mae drafft cyntaf y sefyllfa ariannol ddiwedd mis Awst (Atodiad 2) yn dangos bod tanwariant tebyg ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Os caiff hyn ei gadarnhau yn y rhagolwg diwedd blwyddyn yn dilyn trafodaeth â'r Penaethiaid Gwasanaeth, bydd yn cyfrannu at danwariant o £0.390 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn dystiolaeth ychwanegol i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â phennu cyllideb o £0.500 miliwn i dalu costau staff sy'n ymadael yn gynnar.**

   **Sylwch nad yw'r Penaethiaid Gwasanaeth wedi cadarnhau'r sefyllfa ddiwedd mis Awst felly gall newid yn sylweddol.**

5. **Yn unol â'r fframwaith cyllidebol, nododd y Tîm Cyllid bod £100,000 o gostau staff i'w ddychwelyd i'r gronfa ganolog. Caiff hyn ei ddefnyddio i'w osod yn erbyn y gyllideb ar gyfer cyfnodau secondiad a chysgodi o £75,000 y penderfynwyd arno fel rhan o'r cytundeb cyflogau diweddar, gan gyfrannu £25,000 arall i'r gronfa ymadael yn gynnar. Gwelir hyn yn y tabl sy'n dangos y ceisiadau posibl am arian ac mae perfformiad cyllidebol mis Gorffennaf i'w weld yn yr Atodiad.**

**ASESU RISG MEWN PERTHYNAS Â'R GYLLIDEB A GYMERADWYWYD AM Y FLWYDDYN (£46.227 miliwn)**

6. **Dyma'r meysydd risg allweddol yn y gyllideb, wedi'u dosbarthu fel a ganlyn: gwyrdd os yw'n debygol o gyrraedd y targed, melyn os oes risg posibl a choch os nad yw'n debygol o gyrraedd y targed.**

M Prosiect UNO – ymddengys y bydd y broses o ehangu'r prosiect i gynnwys yr Aelodau wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Hydref. Mae'r sefyllfa bresennol yn awgrymu y caiff y gyllideb ei defnyddio'n llawn ac y caiff y prosiect ei gwblhau ar amser. Mae gorwario'n dal yn bosibl ac mae'r Bwrdd Prosiect yn rheoli hyn yn ofalus.

M Prosiectau eraill – mae'r gwaith o drawsnewid platfform UNO a'r pwysau ychwanegol a roddwyd ar staff TG oherwydd hyn wedi effeithio ar brosiectau eraill. Dylai adolygiad prosiectau nesaf y Swyddfa Raglenni roi darlun cliriach o'r sefyllfa'n gyffredinol yng nghyfarfod y Bwrdd Newid ar 20 Medi.

M Gweithgareddau sy'n dibynnu ar y galw – mae'r gostyngiad o £161k i £131k yn adlewyrchu newidiadau mewn costau diogelwch sy'n awr wedi'u cynnwys yn y gyllideb a ragwelir ar gyfer gwasanaethau. Mae'n dal yn rhy gynnar yn y flwyddyn ariannol i newid y risg yn sylweddol er ei bod yn addawol na nodwyd unrhyw newidiadau ychwanegol hyd yma.

M Cynlluniau ymadael yn gynnar - roedd 51 aelod o staff wedi datgan diddordeb erbyn y dyddiad cau, sef 13 Awst er bod hyn yn awr wedi gostwng i 34 wedi iddynt gael ffigurau mwy pendant gan y Tâl-feistr Cyffredinol. Mae Penaethiaid Gwasanaeth ar hyn o bryd yn sgorio ceisiadau yn ôl y meini prawf y cytunwyd arnynt, yn barod ar gyfer cyfarfod Panel Penderfyniadau'r Cyfarwyddwyr yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 20 Medi a chaiff staff wybod am y penderfyniadau ar 24 Medi.

Materion eraill i'w nodi

7. Cytunodd y Cyfarfod Llawn ar gyllideb atodol ar 13 Gorffennaf 2010 a gwnaed newidiadau yng nghyllideb y Comisiwn drwy ddileu'r gost cyfalaf o £2.245 miliwn yn gyfan gwbl. Penderfynwyd hefyd ddileu'r ddarpariaeth ar gyfer symudiadau pensiwn, sef £0.5 miliwn o'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) a'i chynnwys yn y Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME). Cyllideb y Comisiwn yn awr yw DEL o £46.227 miliwn ac AME o £0.5 miliwn.

8. **Mae'r gwaith o baratoi cynigion cyllideb ddrafft 2011-1012 ar y gweill. Cynhyrchodd y Tîm Cyllid gyllideb ddrafft a drafodwyd gan y Cyfarwyddwyr ar 2 Medi 2010 a chadarnhawyd cymryd camau i gyflwyno cyllideb gytbwys.**

## ARGYMHELLION I'R BWRDD

9. **Argymhellir bod aelodau'r Bwrdd yn:**

   a. **Adolygu'r amrywiannau ym mherfformiad cyllidebol y gwahanol feysydd gwasanaeth hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn;**
   b. **Ystyried sefyllfa'r prosiectau ar hyn o bryd a'r risgiau posibl i'r alldro terfynol;**
   c. **Ystyried a fydd arian ychwanegol ar gyfer y rhaglen diswyddiadau gwirfoddol ar gael o'r gronfa wrth gefn.**

## Atodiad i'r Adroddiad Rheolaeth Ariannol am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2010 a mis Gorffennaf 2010

**Nodyn 1** yn cyflwyno perfformiad y meysydd gwasanaeth a'r prosiectau.

**Nodyn 2** yn cyflwyno perfformiad prosiectau.

**Nodyn 3** yn egluro'r amrywiannau.

**Nodyn 4** yn rhoi trosolwg ar yr arbedion canol blwyddyn gan ddangos y symiau y cymeradwywyd eu trosglwyddo.

**Nodyn 5** yn rhestru'r ceisiadau posibl am arian o'r gronfa wrth gefn

**Nodyn 6** yn cyflwyno perfformiad y meysydd gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2010.

**Nodyn 7** yn cyflwyno perfformiad prosiectau ym mis Gorffennaf 2010.

**Nodyn 8** yn cyflwyno rhagolygon diwedd blwyddyn pob maes gwasanaeth am 2010-11

## *1. Perfformiad cyllidebol rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2010-11*

| Gwasanaeth | Rhagolwg hyd yma (£'000) | Gwir wariant hyd yma (£'000) | Amrywiant dros y cyfnod (£'000) | Amrywiant % | Rhagolwg gwariant 2010-11 (£'000) | Cyllideb flynyddol 2010-11 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 558 | 562 | -4 | 1 | 1,887 | 1,908 |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 208 | 209 | -1 | 0 | 653 | 656 |
| Y Bwrdd Newid - Prosiectau | 355 | 199 | 156 | 44 | 2,844 | 2,844 |
| | **1,121** | **970** | **151** | **13** | **5,384** | **5,408** |
| Y GYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 397 | 377 | 20 | 5 | 992 | 1,014 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 2,440 | 2,375 | 65 | 3 | 6,919 | 6,919 |
| Y Gwasanaethau Ariannol | 285 | 289 | -4 | -1 | 838 | 836 |
| TGCh | 1,050 | 636 | 414 | 39 | 3,933 | 3,939 |
| Cyfathrebu Allanol | 726 | 718 | 8 | 1 | 2,308 | 2,367 |
| Diogelwch | 752 | 713 | 39 | 5 | 2,437 | 2,313 |
| Caffael a Chynaliadwyedd | 41 | 41 | 0 | -1 | 131 | 132 |
| Cymorth Busnes yr Aelodau | 166 | 167 | -1 | -1 | 349 | 346 |
| | **5,857** | **5,316** | **541** | **9** | **17,907** | **17,866** |
| CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD | | | | | | |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 632 | 594 | 38 | 6 | 1,933 | 2,002 |
| Y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth | 390 | 386 | 4 | 1 | 1,189 | 1,204 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | 612 | 618 | -6 | -1 | 1,896 | 1,917 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 389 | 369 | 20 | 5 | 1,181 | 1,211 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 30 | 31 | -1 | 0 | 93 | 99 |
| | **2,053** | **1,998** | **55** | **3** | **6,292** | **6,433** |
| Cyfanswm Gwasanaethau'r Comisiwn | 9,031 | 8,284 | 747 | 8 | 29,583 | 29,707 |
| Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau | 4,216 | 4,133 | 83 | 2 | 12,876 | 12,921 |
| Y gronfa wrth gefn | - | - | - | - | 334 | 334 |
| Arbedion canol blwyddyn | - | - | - | - | 131 | 161 |
| Ceisiadau posibl am arian | - | - | - | - | 183 | 282 |
| Cyfanswm – eitemau arian parod | 13,247 | 12,417 | 830 | 6 | 43,107 | 43,405 |
| Dibrisiant | 941 | 941 | - | - | 2,822 | 2,822 |
| Cyfanswm | 14,188 | 13,358 | 830 | 6 | 45,929 | 46,227 |
| Tanwariant a ragwelir | | | | | 298 | |
| | | | | | 46,227 | |
| Darpariaeth Pensiwn yr Aelodau | | | | | 500 | 500 |

## *Perfformiad cyllidebol prosiectau rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2010-11*

| Prosiect | Cyllideb hyd yma (£'000) | Gwir wariant hyn yma (£'000) | Amrywiant a y cyfnod (£'0 | Amrywiant % | Cyllideb a ragwelwyd 2010-11 (£'000) | Cyllideb flynyddol 2010-11 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dichonoldeb prosiectau | - | - | - | - | 42 | 50 |
| P0001 - UNO | 338 | 191 | 147 | 43 | 1,800 | 1,800 |
| P0002 – Gwaith achos | 8 | 8 | 0 | 0 | 8 | 0 |
| P0004 – System Rheoli Busnes y Cynulliad | 9 | - | 9 | 100 | 145 | 145 |
| P0005 - Darlledu | - | - | - | - | 100 | 100 |
| P0006 - Medialon | - | - | - | - | 125 | 125 |
| P0007 – TGCh newydd i'r Aelodau | - | - | - | - | 50 | 50 |
| P0008 – TGCh newydd yn y Senedd | - | - | - | - | 125 | 125 |
| P0009 - FTR Gold | - | - | - | - | 194 | 194 |
| P0010 – Meddalwedd deddfwriaeth | - | - | - | - | 200 | 200 |
| P0011 – Y Gyflogres | - | - | - | - | 25 | 25 |
| P0012 – Cronfa ddata ymholiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | - | - | - | - | 30 | 30 |
| | **355** | **199** | **156** | **44** | **2,844** | **2,844** |

## 2. *Eglurhad o'r amrywiannau uwchlaw'r goddefiant o 2% yn ystod y cyfnod hyd at fis Gorffennaf 2010*

| Gwasanaeth/ Amrywiant% | Rheswm dros yr amrywiant | Camau sy'n cael eu cymryd i ddileu'r amrywiant |
|---|---|---|
| **Adnoddau Dynol: Tanwariant o 5%** | **Anfonebau'n hwyr yn cyrraedd** | **Cafwyd a thalwyd anfonebau gwerth tua £17,000 ym mis Awst. Newidiwyd y rhagolwg i adlewyrchu hyn.** |
| **Rheoli Ystadau a Chyfleusterau (EFM): Tanwariant o 3%** | **Anfonebau gwerth £25k yn hwyr yn cyrraedd, gwario £13k llai ar wasanaethau oherwydd tywydd da a £23k llai o gostau na'r disgwyl yn dilyn rheoli gwaith cynnal a chadw ymatebol.** | **Cafwyd a thalwyd yr anfonebau hwyr ym mis Awst.<br>Mae costau gwasanaethau a gwaith cynnal a chadw ymatebol yn dibynnu ar y galw. Cedwir golwg ar y ddau'n barhaus a chawn wybod gan yr adran Rheoli Ystadau a Chyfleusterau am unrhyw ddatblygiadau. Does dim newid yn y rhagolwg diwedd blwyddyn ar hyn o bryd.** |
| **TGCh: Tanwariant o 39%** | **Anfonebau'n hwyr yn cyrraedd.** | **Cafwyd a thalwyd anfonebau gwerth tua £360k ym mis Awst. Ni ddisgwylir unrhyw newid yn y rhagolwg diwedd blwyddyn.** |
| **Diogelwch: Tanwariant o 5%** | **Nid yw anfonebau'r Heddlu'n cyrraedd mor aml ag yr oeddynt.** | **Newidiwyd y rhagolwg i adlewyrchu hyn. Disgwylir y bydd gorwariant o £100k oherwydd cynnydd mewn oriau goramser a chynnwys lwfansau oriau sifft.** |
| **Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Tanwariant o 6%** | **Tanwariant mawr ar gostau staff** | **Cysylltwyd â rheolwr y gyllideb i drafod y tanwariant, a chaiff ei ddychwelyd i'r gyllideb ganolog yn unol â fframwaith y gyllideb.** |
| **Gwasanaeth y Pwyllgorau: Tanwariant o 5%** | **Tanwariant mawr ar gostau staff a chostau teithio'r Aelodau** | **Ymchwilir i'r tanwariant hwn a byddwn yn ceisio dychwelyd yr arian i'r gronfa ganolog.** |
| **UNO: Tanwariant o 43%** | **Anfonebau'n hwyr yn cyrraedd** | **Newidiwyd y rhagolwg i ystyried yr anfonebau hwyr a gwybodaeth newydd am wariant. Ni ddisgwylir unrhyw newid yn y rhagolwg diwedd blwyddyn.** |

## *3. Arian a drosglwyddwyd i/o arbedion canol blwyddyn*

| **Balans arbedion yn ystod y flwyddyn:** | **Rhyddhawyd o gyllidebau gwasanaethau (£'000)** | **Dyrannwyd i gyllidebau gwasanaethau (£'000)** | **Balans arbedion canol blwyddyn ar ddiwedd y mis (£'000)** |
|---|---|---|---|
| ***Balans weithredol agoriadol*** | | | ***161*** |
| **Gorffennaf** | **-** | **-30** | **131** |
| **Balans cyfredol** | **-** | **-** | **131** |

## *5.Crynodeb o'r ceisiadau posibl am arian ar 31 Gorffennaf 2010*

| Gwasanaeth | Ceisiadau posibl am arian | Amcangyfrif o werth y ceisiadau posibl am arian ar 31 Gorffennaf 2010 (£'000) | Y sefyllfa ddiweddaraf ar 31 Gorffennaf 2010 | Newidiadau yn yr amcangyfrif o werth (£'000) | Ceisiadau newydd am arian ym mis Gorffennaf 2010 (£'000) | Dyrannwyd o'r arbedion canol blwyddyn i gyllideb gwasanaethau ym mis Gorffennaf 2010 (£'000) | Amcangyfrif o'r ceisiadau posibl am arian ar 31 Gorffennaf 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TGCh | Aildrafod cytundeb y wefan | 100 | | - | - | - | 100 |
| Diogelwch | Trwyddedau SIA | 49 | | - | - | - | 49 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | Archwilio cefndir | 14 | | - | - | - | 14 |
| Cymorth Busnes i'r Aelodau | Costau staff ychwanegol | 49 | | -34 | - | - | 15 |
| Diogelwch | Staff ychwanegol yn y Pierhead | 70 | | -40 | - | - | 30 |
| Pob gwasanaeth | Newidiadau mewn codiadau cyflog | - | | - | -25 | - | -25 |
| | CYFANSWM | 282 | | -74 | -25 | - | 183 |

## *6. Perfformiad cyllidebol ym mis Gorffennaf 2010*

| Gwasanaeth | Cyllideb am y mis (£'000) | Gwir wariant yn ystod y mis (£'000) | Amrywiant (£'000) | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 152 | 156 | -4 | -3 |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 64 | 64 | -1 | -1 |
| Bwrdd Newid - Adolygiad o wasanaethau dwyieithog | 172 | 17 | 156 | 91 |
| | 388 | 237 | 151 | 39 |
| Y GYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU | | | | |
| Adnoddau Dynol | 101 | 81 | 20 | 20 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 447 | 382 | 65 | 15 |
| Y Gwasanaethau Ariannol | 64 | 68 | -4 | -6 |
| TGCh | 530 | 116 | 414 | 78 |
| Cyfathrebu Allanol | 195 | 187 | 8 | 4 |
| Diogelwch | 249 | 210 | 39 | 16 |
| Caffael a Chynaliadwyedd | 11 | 11 | 0 | 2 |
| Cymorth Busnes yr Aelodau | 22 | 105 | -83 | 395 |
| | 1,619 | 1,160 | 459 | 28 |
| CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD | | | | |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 178 | 140 | 38 | 21 |
| Y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth | 106 | 101 | 5 | 4 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | 169 | 174 | -5 | -3 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 114 | 94 | 20 | 18 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 8 | 8 | 0 | -1 |
| | 575 | 517 | 58 | 10 |
| Cyfanswm Gwasanaethau'r Comisiwn | 2,582 | 1,914 | 669 | 26 |
| Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau | 1,050 | 967 | 83 | 8 |
| Cyfanswm – eitemau arian parod | 3,632 | 2,881 | 751 | 21 |
| Dibrisiant | 235 | 235 | - | - |
| Cyfanswm | 3,867 | 3,116 | 751 | 19 |
| Darpariaeth Pensiwn yr Aelodau | - | - | - | - |

## *7. Perfformiad cyllidebol prosiectau ym mis Gorffennaf 2010*

| Gwasanaeth | Cyllideb am y mis (£'000) | Gwir wariant yn ystod y mis (£'000) | Amrywiant (£'000) | Amrywiant % |
|---|---|---|---|---|
| Dichonoldeb prosiectau | - | - | - | - |
| P0001 - UNO | 163 | 17 | 146 | **90** |
| P0002 – Gwaith achos | - | - | - | - |
| P0004 - System Rheoli Busnes y Cynulliad | 9 | **-** | **9** | **100** |
| P0005 - Darlledu | - | - | - | - |
| P0006 - Medialon | - | - | - | - |
| P0007 – TGCh newydd i'r Aelodau | - | - | - | - |
| P0008 – TGCh newydd yn y Senedd | - | - | - | - |
| P0009 - FTR Gold | - | - | - | - |
| P0010 – Meddalwedd deddfwriaeth | - | - | - | - |
| P0011 – Y gyflogres | - | - | - | - |
| P0012 – Cronfa Ddata Ymholiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | - | - | - | - |
| | **172** | **17** | **155** | **90** |

## 8. Rhagolygon gwariant y meysydd gwasanaeth erbyn diwedd y flwyddyn 2010-11

| Gwasanaeth | Cyllideb ar 30/06/10 (£'000) | Rhagolygon Gorffennaf (yn cynnwys gwir wariant mis Gorffennaf) (£'000) |
|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 1,908 | 1,887 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 656 | 653 |
| Prosiectau | 2,844 | 2,844 |
| | **5,408** | **5,384** |
| CYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU | | |
| Adnoddau Dynol | 1,014 | 992 |
| Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 6,919 | 6,919 |
| Gwasanaethau Ariannol | 836 | 838 |
| TGCh | 3,939 | 3,933 |
| Cyfathrebu Allanol | 2,367 | 2,308 |
| Diogelwch | 2,313 | 2,437 |
| Caffael a chynaliadwyedd | 132 | 131 |
| Cymorth Busnes i'r Aelodau | 346 | 349 |
| | **17,866** | **17,907** |
| Cyfarwyddiaeth Busnes yr Aelodau | | |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 2,002 | 1,933 |
| Y Gwasanaeth Siambr a Deddfwriaeth Legislation & Chamber Services | 1,204 | 1,189 |
| Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | 1,917 | 1,896 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 1,211 | 1,181 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 99 | 93 |
| | **6,433** | **6,291** |
| Cyfanswm Gwasanaethau'r Comisiwn | 29,707 | 29,583 |
| Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau | 12,921 | 12,876 |
| Wrth gefn | 334 | 334 |
| Arbedion canol blwyddyn | 161 | 131 |
| Ceisiadau posibl am arian | 282 | 183 |
| Cyfanswm arian parod – eitemau arian parod | 42,628 | 43,107 |
| Dibrisiant | 2,822 | 2,822 |
| Cyfanswm | 46,227 | 45,929 |
| Tanwariant a ragwelir | | 298 |
| | | 46,227 |
| Darpariaeth Pensiwn yr Aelodau - AME | 500 | 500 |

## *1. Perfformiad cyllidebol rhwng mis Ebrill a mis Awst 2010-11*

| Gwasanaeth | Cyllideb hyd yma (£'000) | Gwir wariant hyd yma (£'000) | Amrywiant (£'000) | Amrywiant (%) | Cyllideb a ragwelwyd am 2010-11 (£'000) | Cyllideb flynyddol 2010-11 (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Uned Gorfforaethol** | 738 | 737 | 1 | | 1,897 | 1,908 |
| **Y Gwasanaethau Cyfreithiol** | 259 | 258 | 1 | | 650 | 656 |
| **Y Bwrdd Newid - Prosiectau** | 822 | 501 | 321 | 4 | 2,704 | 2,844 |
| | **1,819** | **1,496** | **323** | 1 | **5,252** | **5,408** |
| **Y GYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU** | | | | | | |
| **Adnoddau Dynol** | 460 | 443 | 17 | | 1,009 | 1,014 |
| **Rheoli Ystadau a Chyfleusterau** | 2,810 | 2,706 | 104 | | 6,981 | 6,919 |
| **Y Gwasanaethau Ariannol** | 352 | 348 | 4 | | 837 | 836 |
| **TGCh** | 1,341 | 1,052 | 289 | 3 | 3,934 | 3,939 |
| **Cyfathrebu Allanol** | 912 | 895 | 17 | | 2,314 | 2,367 |
| **Diogelwch** | 914 | 912 | 2 | | 2,437 | 2,313 |
| **Caffael a Chynaliadwyedd** | 52 | 51 | 1 | | 129 | 132 |
| **Cymorth Busnes yr Aelodau** | 191 | 189 | 2 | | 349 | 346 |
| | **7,033** | **6,597** | **436** | | **17,991** | **17,866** |
| **CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD** | | | | | | |
| **Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau** | 742 | 756 | -15 | | 1,915 | 2,002 |
| **Y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth** | 488 | 479 | 9 | | 1,187 | 1,204 |
| **Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi** | 765 | 760 | 6 | | 1,880 | 1,917 |
| **Gwasanaeth y Pwyllgorau** | 468 | 461 | 7 | | 1,178 | 1,211 |
| **Yr Uned Gydgysylltu** | 38 | 37 | 1 | | 93 | 99 |
| | **2,501** | **2,494** | **7** | | **6,253** | **6,433** |
| **Cyfanswm Gwasanaethau'r Comisiwn** | **11,353** | **10,586** | **767** | | **29,495** | **29,707** |
| **Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau** | 5,227 | **5,139** | **87** | | **12,872** | **12,921** |
| **Y gronfa wrth gefn** | - | - | - | | **334** | **334** |
| **Arbedion canol blwyddyn** | - | - | - | | **131** | **161** |
| **Ceisiadau posibl am arian** | - | - | - | | **183** | **282** |
| **Cyfanswm – eitemau arian parod** | **16,579** | **15,725** | **854** | | **43,015** | **43,405** |
| **Dibrisiant** | **1,176** | **1,176** | - | | **2,822** | **2,822** |
| **Cyfanswm** | **17,755** | **16,901** | **854** | | **45,837** | **46,227** |
| **Tanwariant a ragwelir** | | | | | **390** | |
| | | | | | **46,227** | |
| **Darpariaeth Pensiwn yr Aelodau** | | | | | **500** | **500** |